# PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 22 Tachwedd, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd ac Aelod Annibynnol); Y Cynghorwyr J.E. Charles ac R.M. Birch, G. Watkins (Aelod Annibynnol) a'r Cynghorydd P. Summers (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned).

EITEM AGENDA 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth R. Alexander, G. Olphert a L. Tinsley (Aelodau Annibynnol) a'r Cynghorydd C.P. Franks.

EITEM AGENDA 2 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3 ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD I. PERRY MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR CYMUNED ST. NICHOLAS A THRESIMWN (SM/PGCD) –

Cyn dechrau'r trafodion rhoddwyd sylwadau i'r Cadeirydd ynghylch cworwm y Pwyllgor gyda'r Cynghorydd Charles yn cytuno i ymddiswyddo o'r cyfarfod a pheidio â chymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau.

PENDERFYNWYD –

(1) METHODD y Cynghorydd Perry â chydymffurfio â pharagraff 4(c) o'r Cod Ymddygiad *"Rhaid i chi beidio â defnyddio ymddygiad bwlio nac aflonyddu at unrhyw berson"* mewn perthynas ag anfon e-bost 5 Gorffennaf i Mrs Griffin.

(2) METHODD y Cynghorydd Perry â chydymffurfio â pharagraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad "*rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth i eraill*" mewn gohebiaeth e-bost gyda'r cyn-Gynghorydd Sims.

(3) METHODD y Cynghorydd Perry â chydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad "*rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod*" mewn perthynas â'i weithredoedd o ran ceisiadau am wybodaeth gan Aelodau'r Cyngor a oedd, ym marn y Pwyllgor Safonol, yn dangos diffyg parch a thryloywder.

(4) O ystyried y penderfyniadau uchod gwaharddwyd y Cynghorydd Perry am ddau fis rhag bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn, a chyn

diwedd cyfnod y gwaharddiad mae'r Cynghorydd Perry i fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad gyda'r Swyddog Monitro.

(5) YR hysbysir y Cynghorydd Perry o'i hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i:

Y Cofrestrydd
Panel Dyfarnu Cymru
Adeiladau’r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LE1 5HA

a bod yn rhaid i'r hysbysiad apelio nodi:

- y rhesymau dros apelio, a
- a yw'r person sy'n rhoi’r hysbysiad apelio’n cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(6) YN amodol ar apêl (os o gwbl), cyhoeddir canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau fel y manylir arnynt ym Mhenderfyniadau (1) – (4) uchod yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd. (5)

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Roedd Mrs. Griffin yn glir yn ei thystiolaeth o sut yr oedd hi'n gweld y sylwadau yn yr e-bost a anfonwyd at y Cynghorydd Perry ar 5 Gorffennaf. Wrth ystyried cyfanswm y dystiolaeth, canfu'r Pwyllgor fod cynnwys yr e-bost a anfonwyd at Mrs. Griffin ar 5 Gorffennaf yn eu barn nhw â’r bwriad o godi ofn arni.

(2) Dangosodd gweithredoedd y Cynghorydd Perry mewn perthynas â'r ceisiadau e-bost gan y cyn-Gynghorydd Sims ddiffyg parch tuag at y cyn-Gynghorydd Sims.

(3) Roedd gweithredoedd y Cynghorydd Perry mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth gan Aelodau'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â chwestiynau cyfreithlon hefyd yn brin o barch a thryloywder. Roedd ceisiadau’r cyn-Gynghorydd Sims am wybodaeth yn ymwneud â chyllid y Cyngor Cymuned, gan gynnwys datganiadau banc, ym marn y Pwyllgor Safonol, yn gwbl resymol a chyfreithlon yn ei rôl fel Cynghorydd Cymuned. Roedd methiant y Cynghorydd Perry i ddarparu ymatebion neu wybodaeth briodol, ynghyd â naws amddiffynnol yr ymatebion yn dangos diffyg tryloywder yn ei ymgysylltiadau, a allai ddwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod.

(4) O ran penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau fel yr amlinellir ym Mhenderfyniadau (1), (2) a (3) uchod.

(5&6)  Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd.